OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1390 (Cy. 308)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *1 Rhagfyr 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *3 Rhagfyr 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ionawr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 93(1) ac (8) a 94(1)(b), (c) a (d) a (7) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ("y Ddeddf")(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori yn unol ag adran 93(2) o'r Ddeddf ac maent wedi eu bodloni ynglŷn â'r materion a bennir yn adran 93(6).

(**1**) 1995 p. 25. Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o ran Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.